**CYNGOR BRO PONTARFYNACH COMMUNITY COUNCIL**

**Nos Iau 14 Tachwedd 2019 am 7.30 y.h.**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r presennol canlynol:

Jane Hopkins (Cadeirydd); Brython Davies, Robert Davies, Phil Lloyd, Gareth Jones, Robert Pratt

**1. YMDDIHEURIADAU**

Eluned Evans a'r Cynghorydd Rhodri Davies.

**2. MATERION PERSONOL**

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddatgan buddiant os bydd sefyllfa'n codi.

**4. COFNODION**

**Cyfarfod ar 4ydd Hydref, 2019**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Gareth Jones ac eiliwyd gan Brython Davies.

**5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

(a) Roedd yna eitemau sy'n parhau i fod angen sylw yn yr ardal, y Clerc i ddilyn lan y materion gan cadw ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.

(b) Mae gwastraff anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem, er bod ychydig o'r gwastraff wedi cael eu casglu.

(c ) Y goeden uwchben yr Hen Ficerdy ar ffordd y B4574 wedi ei thorri

(d) Mae rhai o'r cerrig a gafodd eu niweidio ar y bont ym Mhontarfynach wedi cael eu hatgyweiro.

**6. CYLLID**

Cyflwynodd y Clerc fantolen weithredol i'r Cynghorwyr

**Thursday 14th November, 2019 at 7.30 p.m.**

Meeting was held at Mynach School with the following present:

Jane Hopkins (Chairman); Brython Davies, Robert Davies, Phil Lloyd, Gareth Jones, Robert Pratt

**1. APOLOGIES**

Eluned Evans and Cllr Rhodri Davies.

**2. PERSONAL MATTERS**

**3. DECLARATION OF INTEREST**

Members were reminded of the need to declare an interest if a situation arises.

**4. MINUTES**

**Meeting of 4th October, 2019**

The minutes were confirmed as a true record of the meeting, which was proposed by Gareth Jones and seconded by Phil Lloyd.

**5. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES**

(a) There were still outstanding items that require attention in the area, the Clerk to follow up on these issues and to keep them on the agenda during future meetings

(b) Fly Tipping continues to be a problem in the Cwmystwyth area, although some of the contents have been removed.

(c) The tree above the Old Vicarage on the B4574 has been cut back.

(d) Some of the damadged stoneworks on the bridge at Devil's Bridge has been repaired.

**6. FINANCE**

The Clerk presented a working balance sheet to the Councillors.

Cyllideb 2020/21
Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ar gyllideb 2020/21 ac yna i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

2020/21 Budget
Initial discussion on the 2020/21 budget was held with the budget to be confirmed at the next meeting.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau isod:

- T. Lloyd £744.00 (£620.00 a £124.00 TAW) am waith ar y Gofgolofn. Cynigiwyd taliad gan R. Pratt ac eiliwyd gan R. Davies
- £17.00 i'r Lleng Prydeinig am y Dorch Pabi . Cynigiwyd taliad gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan B. Davies.
- Rhodd o £40.00 i'r Lleng Brydeinig. Cynigiwyd taliad gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan R. Davies;
- Alan Cole £249.00 am daliad blynyddol y safle we (£99.00 cynnal y safle a £150 am gytundeb cynnal a chadw. Cynigiwyd y taliad gan B. Davies ac eiliwyd gan Ph. Davies

It was resoved to pay the following invoices:

- T. Lloyd £744.00 (£620.00 and £124.00 VAT) for work on the War Memorial. Payment was proposed by by R. Pratt and seconded by R. Davies
- £17.00 to the British Legion for the Poppy Wreath. Payment was offered by Ph. Lloyd and seconded by B. Davies.
- Donation of £40.00 to the British Legion. Payment was offered by Ph. Lloyd and seconded by R. Davies;
- Alan Cole £249.00 for web site annual payment (£99.00 Hosting and £150.00 for maintenance contract). Payment proposed by B. Davies and seconded by Ph. Davies

Archebu Halen ar gyfer bin halen wrth ymyl Ysgol Mynach.
Cytunwyd i archebu Halen ar gyfer bin o eiddo'r Cyngor Bro ar gost o £120.00 am dri llond bin.
Cynigiwyd gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan B. Pratt.

Purchase of Salt for the salt bin owned by Community Council located near Mynach School.
It was agreed to order Salt for a Community Council bin at a cost of £120.00 to fill the bin three times.
Proposed by Ph. Lloyd and seconded by B. Pratt.

**7. GOHEBIAETH**

*(a)* Adolygiad Gorsafoedd Pleidleisio yn Ardal Cyngor Sir Ceredigion
Cytunwyd ar yr ymateb isod:
*"Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y bwriad i gau Gorsaf Bleidleisio Cwmystwyth, mae'r Cyngor Cymuned yn unfrydol ac yn gryf yn erbyn y cau.*
*Teimlwyd bod cyfleusterau digonol yn Festri'r Capel, Cwmystwyth o ran gwresogi a thoiledau ynghyd â chyfleusterau i'r anabl. Mae parcio yn ddigonol ar hyn o bryd ond mae bwriad i wella hyn yn y dyfodol gyda*

**7. CORRESPONDENCE**

(a) Review Of All Polling Stations In The Ceredigion County Council Area.
The following response was agreed upon:
*"In response to the consultation of the proposed closure of Cwmystwyth Polling Station the Community Council unanimously and strongly object to the closure.*
*It was felt that there are adequate facilities at the Chapel Vestry, Cwmystwyth in regards to heating and toilets as well as facilities for the disabled. Parking is at present adequate but there is an intention of*

*mynediad i fannau parcio ychwanegol.*

*Mae 80% o'r Gymuned yn defnyddio Gorsaf Bleidleisio Cwmystwyth i fwrw eu pleidlais yn bersonol. Yn ystod misoedd y gaeaf gall y ffordd i Bontarfynach ac Ysgol Mynach, lle mae'r orsaf bleidleisio agosaf, yn medru bod yn llithrig. Felly fe all poblogaeth oedrannus a llai symudol cymuned Cwmystwyth ei gweld yn eithaf anodd i bleidleisio'n gorfforol ar ddiwrnod etholiad pe byddai Gorsaf Bleidleisio Cwmystwyth yn cau.*

*improving this in the future with access to additional parking spaces."*

*80% of the Community use the Cwmystwyth Polling Station to cast their vote in person. During winter months the road to Devil's Bridge and Mynach School, where the proposed relocated polling station it sited, can be treacherous. The elderly and less mobile population of the community of Cwmystwyth could therefore find it quite difficult to vote in person on an election day if the Cwmystwyth Polling Station were to close.*

Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6
Trafodwyd yr uchod a chadarnhawyd yn cydymffurfio'r gyda'r Ddeddf. Manylion i'w dodi ar y safle we. Gwahodd arbenigwr ystlumod i ddod i siarad/rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Bro

Environment Wales Act 2016 - Community & Town Councils Duty under Section 6
The above was discussed and confirmation of compliance with the above act with information to be placd on website. A Bat experct to be invited to the next meeting of discuss/ share information.

**8. Ceisiadau Cynllunio:**
**A190767 - Penlan, Devils Bridge, Aberystwyth.** Erection of a Agricultural for storage of equipment & feed.
Dim gwrthwynebiad

Datgelodd J. Hopkins ddiddordeb yn y ddau fater isod ac ymadawodd â'r cyfarfod. Cadeiriwyd gan G. Jones

**A190856 Menter Cymunedol Mynach Cyfyngedig, Mynach Cm Chapel, Devils Bridge, Aberystwyth.** Variation of condition 2 of planning permission A180098 (Amended Plans).
Dim gwrthwynebiad

**A190909 Gwarfelin, Devils Bridge, Aberystwyth** 2no. Shepherd's Huts with a separate Shower/Toilet Facility, with access improvements and associated works.
Dim gwrthwynebiad.

**8. Planning Applications**:
**A190767 - Penlan, Devils Bridge, Aberystwyth.** Erection of a Agricultural for storage of equipment & feed.
No objection

Jane Hopkins declared an interest in the following two applications and left the meeting. G. Jones undertook the Chair.

**A190856 Menter Cymunedol Mynach Cyfyngedig, Mynach Cm Chapel, Devils Bridge, Aberystwyth.** Variation of condition 2 of planning permission A180098 (Amended Plans).
No objection.

**A190909 Gwarfelin, Devils Bridge, Aberystwyth** 2no. Shepherd's Huts with a separate Shower/Toilet Facility, with access improvements and associated works.
No objection.

## 9. UNRHYW FATER ERAILL

(a) Cytunwyd i'r Clerc wneud cais am grant i Fferm Wynt Cefncroes ar gyfer tri diffibriliwr ar gyfer yr ardal.
(b) Arwyddion ffurf Rhos Peiran wedi cael eu gwneud.
(c) Cynhelir Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Mynach ar nos Sul 1af Rhagfyr am 5.00p.m. gan Fenter Cymunedol Mynach Cyf
(d) Atgoffir aelodau am yr angen i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd yn unol â Chanllawiau y Cynghorydd Da.

## 9. ANY OTHER MATTER

(a) It was agreed for the Clerk to apply for a grant to Cefncroes Wind Farm for three defibrillators for the area.
(b) Rhos Peiran form signs made.
(c) A Carol Service will be held at Capel Mynach on Sunday 1st December at 5.00p.m. by Mynach Community Enterprise Ltd
(d) Members are reminded of the need to attend meetings on a regular basis in accordance with the Good Councillors Guide.

## 10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau 5ed Rhagfyr, 2019 yn Ysgol Mynach.

## 10. DATE OF NEXT MEETING

The next meeting to be held on Thursday 5th December, 2019 at Mynach School.